Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Heol y Gadeirlan / Cathedral Road
Caerdydd / Cardiff CF11 9LJ
Ffôn / Tel: 029 20 320500
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Darren Millar AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 24 Chwefror 2016 |
| Ein cyf: | HVT/2511/fgb |
| Tudalen: | 1 o 3 |

Annwyl Darren

## CRAFFU AR GYFRIFON 2014-15

Gofynnodd llythyr y Dirprwy Glerc dyddiedig 9 Chwefror 2016 am fy nghyngor ar yr ymatebion y mae'r Pwyllgor wedi'u cael i'r argymhellion yn ei adroddiad *Craffu ar Gyfrifon 2014-15*. Rwyf wedi nodi fy arsylwadau ar yr ymatebion i adlewyrchu trefn yr argymhellion a'r sefydliadau a gwmpesir yn adroddiad y Pwyllgor.

Mewn nifer o achosion, ymddengys fod problem gyda'r templed a ddefnyddiwyd ar gyfer adroddiad y Pwyllgor. O'r 25 o argymhellion a rifwyd sydd wedi'u rhestru ar y dechrau, mae sawl un sy'n adlewyrchu sylwadaeth gyffredinol o adrannau ‘Ein Barn’ perthnasol yr adroddiad y hytrach na bod yn argymhellion uniongyrchol yn eu rhinwedd eu hunain.

Yn ogystal â'r ymatebion a gafwyd, gallai'r Pwyllgor ystyried gwahodd barn gan Lywodraeth Cymru, yn ei rôl fel noddwr, ar rai o'r materion ac argymhellion a godwyd yn yr adroddiad. Er enghraifft, efallai y bydd y Pwyllgor am geisio barn gan Lywodraeth Cymru ar y materion yn ymwneud â threfniadau yswiriant y Llyfrgell Genedlaethol ac unrhyw oblygiadau ehangach ar gyfer cyrff eraill a noddir, neu ar y materion a godwyd gydag Amgueddfa Cymru yn ymwneud â'r dull o godi tâl ar gyfer digwyddiadau yng nghyd-destun y pwysau ehangach ar ei grant craidd. Ar gyfer y ddau sefydliad hyn, gallai'r Pwyllgor holi Llywodraeth Cymru ynghylch trefniadau dileu swyddi. Roedd y Llyfrgell Genedlaethol yn un o nifer o sefydliadau a oedd wedi cael cyllid buddsoddi i arbed i gynorthwyo ei drefniadau dileu swyddi, fel yr amlygwyd yn fy adroddiad ym mis Chwefror 2015 ar Reoli ymadawiadau cynnar yng ngwahanol gyrff cyhoeddus Cymru.

### Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru

Fel y mae'r Pwyllgor yn ymwybodol, rwy'n datblygu fy archwiliad fy hun a fydd yn ystyried llywodraethu cyffredinol y Llyfrgell Genedlaethol. Bydd fy adroddiad ar gael i graffu ymhellach arno gan y Pwyllgor newydd yn y pumed Cynulliad, pan ellir ailedrych ar unrhyw faterion gweddilliol sy'n codi o'r broses o graffu ar gyfrifon. Bydd y gwaith hwnnw hefyd yn gyfle i fyfyrio ar ymateb y Llyfrgell Genedlaethol i adroddiad PwC o 2015.

Nid oes gennyf unrhyw arsylwadau pellach i'w gwneud ar y pwynt hwn am yr ymatebion gan y Llyfrgell Genedlaethol neu Amgueddfa Cymru heblaw am yr awgrym uchod ynghylch ceisio barn gan Lywodraeth Cymru.

**Comisiwn y Cynulliad**

Gallaf gadarnhau bod fy nhîm archwilio wedi bod yn cynnal trafodaeth gyda'r Comisiwn yng nghyd-destun y canllawiau diweddaraf gan Drysorlys Ei Mawrhydi ar symleiddio adroddiadau a chyfrifon (argymhellion 11 a 12).

Ynglŷn â hygyrchedd gwefan y Cynulliad (argymhelliad 13), nodaf fod yr ymateb yn canolbwyntio ar faterion hygyrchedd cyffredinol a rhwyddineb llywio. Efallai y bydd y Pwyllgor am gadarnhau a yw'r Comisiwn yn cynllunio unrhyw gamau gweithredu i wneud deunydd ar y wefan yn fwy hygyrch i'r rhag ag anghenion penodol, fel y rhai â nam ar y golwg. Er enghraifft, yn ddiweddar rydym wedi cynnal archwiliad hygyrchedd allanol ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru, gyda'r bwriad o ennill achrediad hygyrchedd drwy ddilysu bod ein safle yn bodloni'r Canllawiau rhyngwladol Hygyrchedd Cynnwys ar y We.

**Chwaraeon Cymru**

Er nad yw Chwaraeon Cymru wedi ymateb i argymhelliad 20 a oedd yn ymwneud â rheoli risgiau, mae fy nhîm archwilio yn fodlon bod trefniadau rheoli risgiau Chwaraeon Cymru yn addas at y diben ar y cyfan. Efallai y bydd adroddiad blynyddol nesaf Chwaraeon Cymru yn rhoi'r diweddaraf am rai o'r materion a risgiau a nodwyd yn ei adroddiad 2014-15.

**Llywodraeth Cymru**

Gan droi at Lywodraeth Cymru (argymhellion 21-25 yn yr adroddiad), yn y Pumed Cynulliad bydd angen i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus benderfynu ar newidiadau o ran cyflwyno'r cyfrifon. Gallaf gadarnhau bod fy nhîm archwilio yn parhau i gynnal trafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r mater hwn. Yn yr un modd, gan dybio bod y Pwyllgor newydd yn parhau gyda gwaith craffu pellach ar gyfrifon, caiff y cyfle i ystyried y camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd mewn ymateb i argymhelliad 22 er mwyn ychwanegu dolenni a dogfennaeth ategol at ei dogfennaeth gyfrifyddu ar-lein i ddangos y llif cyllid i sefydliadau eraill y sector cyhoeddus.

Fel rhan o argymhelliad 21, argymhellodd y Pwyllgor y dylai cyfrifon y dyfodol gynnwys rhagor o fanylion am grantiau a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru wedi'u rhestru o dan wariant ar y rhaglen. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi yn ei hymateb ei bod yn bwriadu cynnwys yn ei chyfrifon blynyddol ddolen i'r adroddiad rheoli grantiau blynyddol. Mae'r

dull hwn yn creu risg o beri dryswch yn hytrach na darparu'r manylion a'r eglurder ychwanegol yr oedd y Pwyllgor yn chwilio amdano. Byddai sylwadaeth yr adroddiad grantiau blynyddol ar wariant y flwyddyn flaenorol yn hytrach na blwyddyn y gwariant ar gyfer y cyfrifon blynyddol.

Ar argymhelliad 23, er bod Llywodraeth Cymru wedi darparu manylion am ei weithredu parhaus o ran allyriadau gwastraff a charbon, y cam gweithredu penodol y galwodd y Pwyllgor amdano oedd adolygiad o'r dull o ran lleihau'r defnydd o ynni. Nid yw'n amlwg y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud unrhyw beth yn wahanol yn benodol o ganlyniad i argymhelliad y Pwyllgor, ond mae'r ymateb yn rhoi rhywfaint o sicrwydd o ymrwymiad cyffredinol Llywodraeth Cymru i wella perfformiad ynni ei hystâd.

Mewn ymateb i argymhelliad 24, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i roi'r diweddaraf am ddatblygu ei drefniadau caffael a rheoli contractau drwy'r prosiect 'Paratoi ar gyfer y Dyfodol'. Fel rhan o'm harchwiliad gwerth am arian presennol ar y dirwedd caffael cyhoeddus ar draws y sector cyhoeddus, bydd tîm fy astudiaeth yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru i ddeall yn well gwmpas y gwaith datblygu hwn ac unrhyw faterion sylfaenol o bryder. Er nad yw Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i amserlen ar gyfer diweddariad pellach, ymddengys ei bod yn briodol darparu hyn i gynorthwyo unrhyw waith craffu ar gyfrifon yn y dyfodol yn hydref 2016.

Rwy'n gobeithio bod y cyngor hwn yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor. Rwy'n tybio y bydd y Pwyllgor yn manteisio ar y cyfle drwy ei adroddiad etifeddiaeth i dynnu sylw at y gwaith craffu ar gyfrifon y mae wedi'i gynnal ar ei liwt ei hun. Ymhlith cyrff eraill, mae cyfle i'r Pwyllgor newydd gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru wrth gwmpasu unrhyw waith o'r natur hon yn y dyfodol, er gwaethaf unrhyw graffu posibl yn y dyfodol gan olynydd i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd. Byddai unrhyw sesiwn gyda Chyfoeth Naturiol Cymru yn gyfle i ailedrych ar faterion yn codi o'm hadroddiad diweddar Datblygiad Cyfoeth Naturiol Cymru.

Yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**